**CROESO I EISTEDDFOD BRO PARYS 2027**

Dwi'n teimlo'n freintiedig iawn i gael fy newis i Gadeirio y Pwyllgor gwaith ar gyfer y paratoadau am Eisteddfod Môn ac i'ch croesawu chi, y cyhoedd, i ymuno â ni yn Amlwch yn 2027. Mi fydd hi'n ddeunaw mlynedd ers i'r Eisteddfod gael ei chynnal yn ein hardal ni ac edrychwn ymlaen yn fawr iawn i'w gwahodd atom. Mae Bro Parys yn cynnwys Penysarn, Llaneilian, Rhosybol, Porth Amlwch ac wrth gwrs ein Tref Amlwch. Yn ein milltir sgwâr mae gennym wledd o dalentau – hen ac ifanc ac edrychwn ymlaen i'ch gweld ac i wrando arnoch ar lwyfan Ysgol Syr Thomas Jones yn ogystal â chystadleuwyr ledled yr Ynys a thraw. Mae gennym lond trol o gystadlaethau i siwtio pawb, boed i chi fedru adrodd, canu, actio, dawnsio, crefftio ac hefyd yn falch o dd'eud bod genym gystadleuaeth gyfieithu ac Adran y Dysgwyr. Mae hyn yn golygu bod y rhai sydd yn dysgu'r Gymraeg, yn cael rhannu a gwerthfawrogi ymhellach yn ein diwylliant ac un o ddigwyddiadau pwysicaf y Cymry. Cofiwch hefyd am yr Ŵyl Ddrama.

Mae un gystadleuaeth wedi digwydd yn barod a'r ennillydd oedd Rowen Mason o Ysgol Cemaes wrth iddo greu Logo ar gyfer yr Eisteddfod a braf oedd cael ei wobrwyo yn ystod Eisteddfod Gylch yr Urdd ac yntau yn gwybod dim o flaen llaw. Felly, dewch i gystadlu, dewch i wylio a dewch â phob aelod o'ch teulu a'ch ffrindiau hefo chi i fwynhau diwrnod o hwyl a dathlu.

Fel Cadeirydd, rwyf eisioes wedi sôn mai fel Capten llong yr ydwyf yn gweld fy hun ac mae gennym griw bychan ond gweithgar ofnadwy yn paratoi ar eich cyfer. Rhaid i mi ganu clôd un aelod a honno yw un o'r Ysgrifenyddion. Be 'sa ni'n neud heb Alwen Jones dudwch? A gwyddwn y bydd pob aelod o'r Pwyllgor yn cytuno hefo mi.

Edrychwn ymlaen yn fawr iawn i'ch gweld.

Gwenda Parry – Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Môn Bro Parys.

**Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Môn Bro Parys 2027**

Cadeirydd – Mrs Gwenda Parry
Ysgrifenyddion – Mrs Alwen Jones, Mrs Sian L. Rowlands
Trysorydd – Dafydd Jones
Aelodau'r Pwyllgor Gwaith – Mrs Catherine M. Jones, Mrs Ceri L. Jones, Mrs Ffion Roberts Drakley, Mrs Julie Ann Hughes, Mrs Medi Greenough, Mrs Miriam Sanders, Mrs Nia Edwards, Robert Williams.

**Llywyddion Anrhydeddus**

R. Geraint Thomas;
Gwyn Roberts

# GORSEDD BEIRDD MÔN

## GORAU ARF ARF DYSG

## Swyddogion yr Orsedd 2026-2027

| | |
|---|---|
| Derwydd Gweinyddol: | Marlyn |
| Caplan: | Huw Goronwy |
| Cofiadur: | Mallt |
| Bardd yr Orsedd: | Rhisiart Blaen Ddôl |
| Trysorydd: | Llanbedr-Rhosfair |
| Rhingyll: | Rhys Elis |
| Ceidwad y Cledd: | Athenfab |
| Meistres y Gwisgoedd: | Llygeirian |
| Ceidwaid y Pyrth: | Belanydd a Llifon |
| Cyflwynfeirdd: | Anwen Llewelyn a Linda'r Hafod |
| Trefnwyr y Ddawns Flodau: | Heledd Haf a Mair Jones |
| Corn Gwlad: | Jess Bailey |

# SWYDDOGION LLYS EISTEDDFOD MÔN 2026-27

| | |
|---|---|
| Cymrawd y Llys: | Eryl H. Jones, Bodffordd |
| Llywyddion y Llys: | Ellis Wyn Roberts, Llangefni<br>Victor Hughes, Bodffordd<br>Edward Morus Jones, Llangristiolus<br>Islwyn Williams, Biwmares<br>John Roberts, Llanfairpwll |
| Llywyddion y Llys: | Ms Nia Efans, Talwrn<br>Mrs Ann Postle, Bodedern |
| Is-lywydd y Llys: | Dr. Huw Tegid Roberts, Llangefni |
| Ysgrifennydd y Llys: | Llifon Jones, Gaerwen |
| Is-ysgrifennydd y Llys: | Mrs Gwenda Healy, Gaerwen |
| Trysoryddion y Llys: | Mrs Bethan Owen, Talwrn<br>Mrs Llio Lloyd Jones, Bodedern |
| Swyddogion Technegol: | Victor Hughes, Bodffordd<br>Evan D. Jones, Llannerch-y-medd |
| Swyddogion Llwyfan: | Dic Pritchard, Llangefni<br>Arwel Humphreys, Bodffordd |
| Archwilwyr: | Cyfrifwyr Salisburys, Porthaethwy |

# Cân y Croeso

Pan ddaw mis Mai a'i dywydd braf
A'r haf ar fin dychwelyd,
A blodau'r drain fel cyfnas wen
A'r awen yn ymgymryd,
Ein braint yw estyn croeso twym
I froydd mwyn ein mebyd.

Yn hen ac ieuainc dewch ar frys
Bro Parys sy'n arlwyo.
Chwi eisteddfodwyr o bob rhyw
Yn hyglyw deuwch yno.
Ni chewch eich siomi os y dewch
I Amlwch, tre'r tybaco.

Fe welwch yma 'ngogledd Môn
Hen olion o fwyngloddio,
A draw'n y Borth ar fin y dŵr
Mae harbwr i'w allforio.
A Caru Amlwch wrth eu bodd
Yn noddi yn ddiflino.

Bydd yma lu o wobrau hael
Ar gael i bob enillydd,
A pharod yr ymgyrchwn ni:
Ysgogi bob ymgeisydd.
Ac i'ch diddori yn ddi-feth-
Criw Eleth'n llawn llawenydd.

Eich gwadd yn gynnes yw ein nod
I Steddfod ein Mam Ynys.
O dewch werinwyr dewch yn llu,
Cewch flasu'r doniau graenus.
A gwresog fydd ein croeso ni
Eleni i Fro Parys.

Gwyn Roberts

*Bydd rhestr llawn o noddwyr y cystadlaethau yn cael eu nodi yn Rhaglen y Dydd.*

## *Amodau Cyffredinol – Eisteddfod Môn Bro Parys 2027*

1. Cymraeg fydd iaith y llwyfan.
2. Bydd gan y beirniad hawl atal neu ad-drefnu'r gwobrau.
3. Ni chaniateir gwrthdystio ar goedd yn erbyn unrhyw ddyfarniad. Rhaid anfon gwrthdystiad ysgrifenedig i Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod o fewn awr ar ôl cyhoeddi'r dyfarniad.
4. Ym mhob cystadleuaeth sy'n gyfyngedig i oedran penodol, cyfrifir yr oedran ar **1 Medi 2026**.
5. Disgwylir i gystadleuwyr ymddangos a chystadlu yn ôl y drefn a roddir iddynt a bod yn barod yng nghefn y llwyfan 5 munud cyn dechrau'r gystadleuaeth.
6. Yn dilyn rhagbrofion, gofynnir i'r beirniaid roi tri ar y llwyfan os bydd teilyngdod.
7. Ni chaniateir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth yn yr un adran.
8. Dyfarniad yn unig a roddir o'r llwyfan er mwyn arbed amser. Bydd beirniadaeth ysgrifenedig ar gael i bob cystadleuydd. Gweler hefyd amodau llenyddol yn yr 'Adran Lenyddiaeth'.
9. Rhoddir hawl i aelodau'r pwyllgor gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth.
10. Bydd angen i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn cofrestru i gystadlu drwy ebostio EisteddfodMon2027@gmail.com neu ffonio 07861379340

Ffurflenni cystadlu ym mhob adran i'w hanfon drwy e-bost at: **eisteddfodmon2027@ gmail.com** erbyn 24 Ebrill 2027 NEU drwy'r post at: Mrs Alwen Jones, Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith, Llifon, 21 Ffordd Tan y Bryn, Amlwch, Ynys Môn LL68 9BD

*GWELER HEFYD AMODAU YN Y GWAHANOL ADRANNAU*

*Mae Eisteddfod Môn yn aelod o Gymdeithas Eisteddfodau Cymru*

# CERDDORIAETH

*Amodau cystadlu cyffredinol*

Ymhob cystadleuaeth lle bo hunanddewisiad, **bydd yn ofynnol** i'r ymgeisydd anfon copi electronig neu 2 gopi caled erbyn 8 Mai 2027 at Ysgrifennydd yr Eisteddfod.

**Beirniaid Lleisiol**: Ilid Anne Jones, Steffan Prys, Ceren Lloyd
**Beirniad Cerdd Dant**: Gwennant Pyrs
**Alaw Werin:** Glesni Fflur
**Beirniad Offerynnol:** Meurig Thomas
**Beirniad Sioe Gerdd** / **Canu Ysgafn:** Gruffydd Wyn
**Beirniad Cyfansoddi**: Gareth Glyn
**Cyfeilyddion**: Ann Peters Jones, Rhian Lloyd Jones, Owain Parry, Steven John Evans-Justice
**Telynores**: Elain Rhys Jones

**Amodau Adran Cerddoriaeth**

Noder – mae llungopïo unrhyw ddarn o gerddoriaeth sydd wedi ei gyhoeddi yn anghyfreithlon.
1. Yn y cystadlaethau ar gyfer unawdwyr a deuawdau, mae'n rhaid i gystadleuwyr dderbyn gwasanaeth cyfeilyddion swyddogol yr Eisteddfod ac eithr yng nghystadleuaeth y Sioe Gerdd ble caniateir eu cyfeilyddion eu hunain.
2. Fe benderfynir ar drefn i'r corau ganu o flaen llaw a rhaid cadw at y drefn honno tra gellir.

**Lleisiol Cynradd**

1. Unawd Bl 2 ac iau – Hunanddewisiad

Gwobrau
1af – £12
2il – £8
3ydd – £5

2. Unawd Bl 3 a 4 – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
        1af – £12
        2il – £8
        3ydd – £5

*Yn rhoddedig gan Margaret Jones er cof am ei rhieni – Tom ac Elizabeth Jones ('Refail, Amlwch).*

3. Unawd Bl 5 a 6 – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
        1af – £12
        2il – £8
        3ydd – £5

4. Deuawd Bl 6 ac iau – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
        1af – £20
        2il – £16
        3ydd – £10

5. Parti unsain Bl 6 ac iau ar gyfer Ysgolion Cynradd – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
        1af – £50
        2il – £30
        3ydd – £20

6. Parti unsain Bl 6 ac iau ar gyfer mudiadau, clybiau a chymdeithasau – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
        1af – £50
        2il – £30
        3ydd – £20

7. Parti neu Gôr Deulais Bl 6 ac Iau ar gyfer Ysgolion Cynradd – Hunanddewisiad

   Gwobrau:
   1af – £50
   2il – £30
   3ydd – £20

8. Parti neu Gôr Deulais Bl 6 ac Iau ar gyfer Mudiadau – Hunanddewisiad

   Gwobrau:
   1af – £50
   2il – £30
   3ydd – £20

9. Unawd / Canu Emyn Bl 6 ac iau – Hunanddewisiad

   Gwobrau:
   1af – £20
   2il – £16
   3ydd – £10

**Lleisiol Uwchradd**

10. Unawd Bl 7, 8 a 9 – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    1af – £15
    2il – £12
    3ydd – £8

11. Deuawd Bl 7, 8 a 9 – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    1af – £30
    2il – £20
    3ydd – £10

12. Parti unsain ar gyfer Ysgolion Uwchradd – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

13. Parti unsain 19 oed ac iau ar gyfer Mudiadau – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

14. Unawd Bl 10 ac o dan 19 oed – Hunanddewisiad. Unrhyw unawd safonol ac eithrio emyn, unawd allan o sioe gerdd neu ffilm, neu gân i'w chanu yn y Gymraeg.

Gwobrau:
1af – £20
2il – £15
3ydd – £10

*Yn rhoddedig gan Trefor a Delyth Edwards, Rhostrehwfa*

15. Unawd / Canu Emyn o dan 19 oed – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £20
2il – £15
3ydd – £10

16. Deuawd o dan 19 oed – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £30 – *Gwobr Goffa Nora Jones*
2il – £20 – *Gwobr Goffa Nora Jones*
3ydd – £10

**Lleisiol Agored**

17. Deuawd 19 oed a throsodd – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £40
2il – £30
3ydd – £20

18. Unawd / Canu Emyn dros 19 oed ac o dan 50 oed – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

*Yn rhoddedig gan Llifon Jones, Gaerwen.*

19. Unawd / Canu Emyn dros 50 oed – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

*Yn rhoddedig gan y Parch a Mrs. R.O Jones, Gaerwen.*

20. Unawd 30 oed ac iau. Perfformio 2 gân –

a) Dewis unrhyw ddarn allan o opera, oratorio neu leider i'w chanu'n Gymraeg.
b) Unrhyw unawd Gymraeg.

Ni chaniateir canu'r un gân mewn mwy nag un gystadleuaeth.

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

*Yn rhoddedig gan Eryl a Myfanwy Jones, Bodffordd*

21. Unawd Gymraeg – Unrhyw gân a gyfansoddwyd gan gyfansoddwr Cymreig. I'w chanu yn y Gymraeg

Gwobrau:
1af – £60 – *Yn rhoddedig gan Gymdeithas Point Lynas, Amlwch*
2il – £40 – *Yn rhoddedig gan Gymdeithas Point Lynas, Amlwch*
3ydd – £25

22. Y Brif Unawd – Unrhyw ddarn allan o Opera, Oratorio neu Leider i'w chanu yn y Gymraeg.

Gwobrau:
1af – £100 – Yn rhoddedig gan Gymdeithas Point Lynas, Amlwch
2il – £75
3ydd – £50

**Partïon / Corau Lleisiol**

23. Ensemble Lleisiol (rhwng 3 ac 8 mewn nifer) – Hunanddewisiad digyfeiliant hefo o leiaf 3 llinell gerddorol.

Gwobrau:
1af – £50 – *Yn rhoddedig gan Gangen Merched y Wawr, Amlwch.*
2il – £30
3ydd – £20

24. Parti Deulais heb fod mwy nag 25 mewn nifer – Hunanddewisiad, cyflwyno un darn.

Gwobrau:

1af – £100 – *Yn rhoddedig gan Ysgoloriaeth Côr y Traeth*
2il – £75
3ydd – £50

25. Côr Merched, Dynion neu Gymysg – cyflwyno rhaglen hyd at 12 munud gan gynnwys 1 darn digyfeiliant.

Gwobrau:

1af – £400 – *Yn rhoddedig gan Ysgoloriaeth Côr y Traeth*
2il – £300 – *Yn rhoddedig gan Lys Eisteddfod Môn*
3ydd – £200 – *Yn rhoddedig gan Lys Eisteddfod Môn*

**Canu Gwerin**

26. Unawd Bl 6 ac iau – Hunanddewisiad

Gwobrau:

1af – £12
2il – £8
3ydd – £6

27. Unawd Bl 7, 8 a 9 – Hunanddewisiad

Gwobrau:

1af – £15
2il – £12
3ydd – £8

28. Unawd Bl 10 ac o dan 19 oed – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £20
2il – £15
3ydd – £10

29. Unawd Alaw Werin 19 oed a throsodd – Hunanddewisiad.

Gwobrau:
1af – £40
2il – £30
3ydd – £20

30. Côr neu Barti Gwerin oedran ysgol – Hunanddewisiad.

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

31. Côr, Parti Gwerin neu Blygain Agored – Hunanddewisiad.

Gwobrau:
1af – £100
2il – £75
3ydd – £50

# CERDD DANT

## *Amodau Cerdd Dant*

1. Mae'n hollol hanfodol nodi'r gainc a'r cyweirnod wrth gofrestru.
2. Rhaid sicrhau copi o'r gainc yn y traw cywir o leiaf 1 wythnos cyn yr Eisteddfod. Rhoddir caniatad i'r delynores wrthod cyfeilio os nad yw'r gainc wedi dod i law cyn yr Eisteddfod.
3. Rhaid sicrhau copi o'r geiriau.
4. Fe all cystadleuydd drefnu ymarfer hefo'r delynores cyn mynd ar y llwyfan.
5. Caniateir canu un bennill o'r gân ar y llwyfan i ymarfer yn unol â rheolau Cymdeithas Cerdd Dant.

1. Unawd Bl 3 ac iau – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    - 1af – £12
    - 2il – £8
    - 3ydd – £6

2. Unawd Bl 4, 5 a 6 – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    - 1af – £12
    - 2il – £8
    - 3ydd – £6

3. Unawd Bl 7, 8 a 9 – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    - 1af – £15
    - 2il – £12
    - 3ydd – £8

4. Unawd Bl 10 ac o dan 19 oed – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    1af – £20
    2il – £15
    3ydd – £10

5. Deuawd Cerdd Dant Oedran Ysgol (Cynradd neu Uwchradd) – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    1af – £30
    2il – £20
    3ydd – £10

6. Unawd 19 oed a throsodd – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    1af – £40
    2il – £30
    3ydd – £20

7. Côr neu Barti Cerdd Dant oedran Ysgol (Cynradd neu Uwchradd) – Hunanddewisiad

    Gwobrau:
    1af – £50
    2il – £30
    3ydd – £20

8. Côr neu Barti Cerdd Dant Agored – Hunanddewisiad.

    Gwobrau:
    1af – £100
    2il – £75
    3ydd – £50

## OFFERYNNOL

### *Amodau Offerynnol*

PWYSIG: Rhaid nodi wrth gofrestru os ydych angen gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod.

1. Mae rhyddid i unawdwyr ddefnyddio eu cyfeilydd eu hunain.
2. Ni fydd cyfeilydd swyddogol ar gael ar y diwrnod oni nodir yr angen wrth gofrestru.
3. Dylid amgau copi o’r gerddoriaeth y bwriedir ei berfformio wrth gofrestru.
4. Ni chaniateir newid cyweirnod – rhaid perfformio’r gerddoriaeth yn y cyweirnod gwreiddiol.
5. Bydd hawl gan y beirniad dynnu marciau oddi ar gystadleuydd aiff dros yr amser penodedig.

1. Unawd offerynnol bl 6 ac iau – na chymer mwy na 3 munud i’w berfformio

Gwobrau:
1af – £12
2il – £8
3ydd – £6

2. Unawd offerynnol Bl 7,8 a 9 – na chymer mwy na 5 munud i’w berfformio

Gwobrau:
1af – £15
2il – £12
3ydd – £8

3. Unawd offerynnol Bl 10 ac o dan 19 oed – na chymer mwy na 8 munud i’w berfformio

Gwobrau:
1af – £20
2il – £15
3ydd – £8

*Gwobrau’n rhoddedig gan Walter Glyn a Gwenda Davies, Amlwch*

4. Ensemble offerynnol oedran ysgol – na chymer mwy na 8 munud i'w berfformio

Gwobrau:

1af – £30
2il – £20
3ydd – £10

# SIOE GERDD

## Amodau Sioe Gerdd

1. Cân o Sioe Gerdd neu ffilm. Rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeilydd / gyfeiliant ei hun, gall hynny gynnwys tâp neu allweddell wedi ei raglennu, OND ni ddylid defnyddio lleisiau cefndir.
2. Bydd angen sicrhau copi o'r gân a'r sgôr i'r beirniad. Rhaid anfon copi wrth gofrestru.
3. Caniateir canu'r gân yn y GYMRAEG yn unig.

1. Unawd o Sioe Gerdd neu Ffilm bl 9 ac Iau

Gwobrau:
1af – £15
2il – £12
3ydd – £8

2. Unawd o Sioe Gerdd neu Ffilm bl 10 ac o dan 19 oed.

Gwobrau:
1af – £30
2il – £20
3ydd – £10

3. Unawd o Sioe Gerdd neu Ffilm 19 oed a throsodd.

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

4. Detholiad o Sioe ar gyfer grŵp / côr

Gwobrau:

1af – £200
2il – £100
3ydd – £50

# CYFANSODDI

## *Amodau Adran Cyfansoddi*

1. Rhaid i bob cyfansoddiad neu gynnyrch a anfonir i'r gystadleuaeth fod yn waith gwreiddiol. Bydd rhaid i gystadleuwyr brofi dilysrwydd eu gwaith os bydd angen.
2. Rhaid i bob cyfansoddiad gael ei anfon drwy ebost at EisteddfodMon2027@gmail.com gan nodi ffugenw, enw llawn a manylion cyswllt y cyfansoddwr NEU drwy'r post (gweler y cyfeiriad o dan 'Amodau Cyffredinol')
3. Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd Ysgrifennydd yr Eisteddfod erbyn 1 Chwefror 2027
4. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith fydd yn cyrraedd yn hwyr.
5. Cymerir bob gofal am y cyfansoddiadau ond ni fydd yr Eisteddfod yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
6. Ni ddychwelir cyfansoddiadau os na dderbynnir cais o flaen llaw i dderbyn y gwaith yn ôl. Bydd modd derbyn y cyfansoddiadau oddi wrth yr ysgrifennydd ar ôl i ganlyniad y gystadleuaeth gael ei gyhoeddi yn yr Eisteddfod.
7. Os y dymunir anfon gwaith drwy'r post, cysylltwch hefo ysgrifennydd yr Eisteddfod.

## Cyfansoddi Oedran Uwchradd

1. Oedran Ysgol Uwchradd: Darn o gerddoriaeth, unrhyw gyfrwng (lleisiol neu offerynnol), dim mwy na 5 munud i'w berfformio. Gellir cynnwys recordiad o'r gwaith. Caniateir gwaith TGAU neu lefel A.

Gwobrau:

1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

**Cyfansoddi Agored**

2. Agored: Darn o gerddoriaeth, unrhyw gyfrwng (lleisiol neu offerynnol), dim mwy na 5 munud i'w berfformio. Gellir cynnwys recordiad o'r gwaith.

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

3. Emyn dôn: Cyfansoddi emyn dôn ar gyfer yr emyn isod o waith y diweddar Edna Davies-Jones.

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

*Yn rhoddedig gan Mrs. Sylvia Jones, Y Fali er cof am ei diweddar ŵr, Goronwy.*

**Gweddi dros Gymru**

O! Arglwydd, cofia Gymru,
yn nydd ei hangen mawr –
ei hangen am dy gymorth
i'w thywys hi bob awr;
Ei thywys ar hyd llwybrau
cyfiawnder, parch a hedd;
a dyn yn caru'i gyd-ddyn,
heb sôn am drais na chledd.

O! Arglwydd, cofia Gymru,
â'i chrefydd 'nawr ar drai;
a rhif y gwir addolwyr
o hyd yn mynd yn llai.
Rhoi iddi deimlo eto
holl rym yr Ysbryd Glân
yn llosgi yn ei chalon
fel fflam angerddol dân.

*Edna Jones (1922-2010)*

# DAWNS

## *Amodau'r Adran Ddawns*

1. Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg.
2. Ar gyfer grwpiau dawns gwerin, rhaid nodi enw'r ddawns ynghyd â chyfarwyddiadau'r ddawns wrth gofrestru.
3. Dawns Werin – disgwylir i'r ddawns ddefnyddio arddull, camau a phatrymau traddodiadol Cymreig, ac alawon traddodiadol Gymreig neu yn draddodiadol eu naws.
4. Amserir y Perfformiad o'r symudiad cyntaf. Ni chaniateir i'r hyfforddwyr osod y dawnswyr yn eu lle ar gychwyn cystadlaethau dawns.
5. Os na nodir rhif penodol o ddawnswyr, caniateir defnyddio unrhyw nifer addas at ofynion y ddawns.
6. Dawns Cyffredinol – dawnswyr i wisgo dillad addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran.
7. Rhaid i'r dawnswyr ystyried agweddau o iechyd a diogelwch a sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad.

**Beirniad Dawns Werin a Stepio:** Heledd Haf
**Beirniad Dawns Cyffredinol:** Olwen Green

### Gwerin

1. Dawns Werin Unigol Bl 9 ac iau – dim mwy na 3 munud.

Gwobrau:
1af – £15
2il – £12
3ydd – £8

2. Dawns Werin Unigol Agored – dim mwy na 4 munud.

Gwobrau:
1af – £25
2il – £20
3ydd – £15

3. Parti Dawns Werin neu stepio i Grŵp bl 6 ac iau – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

4. Parti Dawns Werin neu Stepio Agored – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £200
2il – £150
3ydd – £100

**Dawns Unrhyw Gyfrwng**

5. Dawns Unigol disgo, hip hop neu stryd bl 6 ac iau – Hyd at 3 munud.

Gwobrau:
1af – £12
2il – £8
3ydd – £5

6. Dawns Unigol disgo, hip hop neu stryd dan 19 oed – Hyd at 3 munud.

Gwobrau:
1af – £15
2il – £12
3ydd – £8

7. Dawns Grŵp i Ysgolion Cynradd – Unrhyw arddull hyd at 3 munud

Gwobrau:

1af – £30

2il – £20

3ydd – £10

*Y wobr gyntaf yn rhoddedig gan 'Doli Dilis', Amlwch*

8. Dawns Grŵp Creadigol i gyflwyno stori neu chwedl gall cynnwys oedran cynradd neu uwchradd. Hyd at 4 munud.

Gwobrau:

1af – £40

2il – £30

3ydd – £20

9. Dawns Grŵp unrhyw arddull – Agored. Hyd at 4 munud

Gwobrau:

1af – £40

2il – £30

3ydd – £20

## LLEFARU

**Beirniaid**: Linda'r Hafod, Teleri Mair

1. Llefaru Bl 2 ac iau – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £12
2il – £8
3ydd – £5

2. Llefaru Bl 3 a 4 – Hunanddewisiad.

Gwobrau:
1af – £12
2il – £8
3ydd - £5

3. Llefaru Bl 5 a 6 – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £12
2il – £8
3ydd – £5

*Rhoddedig gan Ellis ac Roberts, Llangefni.*

4. Llefaru Bl 7, 8 a 9 – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £15
2il – £12
3ydd – £8

*Rhoddedig gan Ellis ac Ann Roberts, Llangefni.*

5. Llefaru Bl 10 ac o dan 19 oed – Hunanddewisiad.

Gwobrau:
1af – £20
2il – £15
3ydd – £10

*Yn rhoddedig gan Ellis Wyn ac Ann Roberts, Llangefni*

6. Llefaru Unigol Agored – Hunanddewisiad.

Gwobrau:
1af – £60
2il – £40
3ydd – £20

7. Llefaru Unigol Agored – Hunanddewisiad. Cyflwyno darn doniol dim mwy na 4 munud o hyd.

Gwobrau:
1af – £60
2il – £40
3ydd – £20

8. Grŵp Llefaru oedran Ysgol Gynradd – Hunanddewisiad.

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

9. Grŵp Llefaru oedran cynradd i glybiau / cymdeithasau / mudiadau ar wahân i ysgolion – Hunanddewisiad.

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

10. Grŵp Llefaru 19 oed ac iau – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

11. Grŵp Llefaru Agored – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £100
2il – £75
3ydd – £50

**Llefaru Dysgwyr**

12. Llefaru Bl 2 ac iau – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £12
2il – £8
3ydd – £5

13. Llefaru bl 3 a 4 – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £12
2il – £8
3ydd – £5

14. Llefaru Bl 5 a 6 – Hunanddewisiad

Gwobrau:
1af – £12
2il – £8
3ydd – £5

15. Llefaru Bl 7, 8 a 9 – Hunanddewisiad

Gwobrau:
- 1af – £15
- 2il – £10
- 3ydd – £8

16. Llefaru Bl 10 ac o dan 19 oed – Hunanddewisiad

Gwobrau:
- 1af – £20
- 2il – £15
- 3ydd – £10

# YSGAFN

## *Amodau Adran Ysgafn*

1. Mae'n hanfodol fod iaith addas sydd yn weddus i gynulleidfa ifanc yn cael ei ddefnyddio ymhob cystadleuaeth.
2. Rhaid i bob gân bop / ysgafn gael ei chyflwyno yn y Gymraeg yn unig.
3. Grŵp Pop / Ysgafn – rhaid ceisio gosod a chlirio'r llwyfan yn gyflym. Bydd rhaid sicrhau fod offerynnau wedi eu tiwnio cyn dod ar y llwyfan.
4. Deuawd neu driawd doniol – caniateir mân offer ar y llwyfan os bydd angen.
5. Rhaid i bob cystadleuydd rhif 78 a 79 sicrhau eu bod gefn llwyfan 10 munud cyn i'r gystadleuaeth ddechrau.

**Beirniad:** Cystadlaethau Pop – Gruffydd Wyn
Cystadlaethau Ysgafn – Caryl Bryn

1. Cyflwyno Cân Ysgafn unigol oedran Uwchradd

   Gwobrau:
   1af – £20
   2il – £15
   3ydd – £10

2. Grŵp Pop / Ysgafn – dim mwy na 5 munud

   Gwobrau:
   1af – £40
   2il – £30
   3ydd – £20

3. Deuawd neu Driawd Doniol – hyd at 5 munud.

   Gwobrau:
   1af – £30
   2il – £20
   3ydd – £10

4. Darn heb ei atalnodi – unigol **RHAID COFRESTRU O FLAEN LLAW**

Gwobrau:

1af – £15
2il – £10
3ydd – £5

5. Stori a Sain – 2 mewn grŵp **RHAID COFRESTRU O FLAEN LLAW**

Gwobrau:

1af – £15
2il – £10
3ydd – £5

# LLENYDDIAETH

***Amodau'r Adran Llenyddiaeth***

1. Rhaid i bob cyfansoddiad neu gynnyrch a anfonir i'r gystadleuaeth fod yn waith gwreiddiol. Bydd rhaid i gystadleuwyr brofi dilysrwydd eu gwaith os bydd angen.
2. Y cyfansoddiadau i fod yn Gymraeg.
3. Rhaid i bob ymgeisydd am y Gadair a'r Fedal Ryddiaith anfon eu gwaith ar e-bost at EisteddfodMon2027@gmail.com gan gynnwys ffugenw, enw llawn a manylion cyswllt NEU drwy'r post i'r cyfeiriad a nodir yn yr Amodau Cyffredinol. (gw. Rhif 10).
4. Derbynnir rhestr enwau a ffugenwau gan ysgolion yn hytrach nag amlen ar gyfer pob cystadleuydd.
5. Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd Ysgrifennydd yr Eisteddfod erbyn 1 Chwefror 2027.
6. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith fydd yn cyrraedd yn hwyr.
7. Cymerir bob gofal am y cyfansoddiadau ond ni fydd yr Eisteddfod yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
8. Ni ddychwelir cyfansoddiadau os na dderbynnir cais o flaen llaw i dderbyn y gwaith yn ôl. Bydd modd derbyn y cyfansoddiadau oddi wrth yr ysgrifennydd ar ôl cyhoeddi'r gystadleuaeth yn yr Eisteddfod.
9. Os y dymunir anfon gwaith drwy'r post, cysylltwch hefo ysgrifennydd yr Eisteddfod.
10. Bydd Llys Eisteddfod Môn yn cyhoeddi Cyfansoddiadau'r Eisteddfod ar-lein yn ystod yr wythnos yn dilyn yr Eisteddfod. Gobeithir y byddant yn ymddangos ar wefan Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

**Cystadlaethau Barddoniaeth**

**Beirniaid:** Dr Cen Williams,  Dr Gareth Evans Jones, ’Rocet’ Arwel Jones

1. **Cystadleuaeth y Gadair**: Cerdd Gaeth neu Rydd (hyd at 100 llinell)
   Testun: ‘Ynys’
   Gwobr: Cadair a £150

*Y Gadair a’r wobr ariannol yn rhoddedig gan Meirion a Gareth Thomas, Longae, Amlwch*

**Barddoniaeth yn y Mesurau Caeth**

2. **Vers Libre Cynganeddol**
   Testun: ‘Môr a Mynydd’
   Gwobr: £30 i’w rannu

3. **Englyn**
   Testun: ‘Bro’
   Gwobr: £30 i’w rannu

*Gwobr er cof am Alan Wyn Roberts, Brynsiencyn yn rhoddedig gan ei weddw, Mrs Ann Roberts.*

4. **Englyn Digri**
   Testun: ‘Y Cei’
   Gwobr: £30 i’w rannu

*Gwobr er cof am Alan Wyn Roberts, Brynsiencyn yn rhoddedig gan ei weddw, Mrs Ann Roberts.*

**Barddoniaeth yn y Mesurau Rhydd**

5. **Soned**
   Testun: ‘Ynni’
   Gwobr: £30 i’w rannu

6. **Telyneg**
   Testun: 'Hwylio'
   Gwobr: £30 i'w rannu

   *Y wobr yn rhoddedig gan Gwyn Roberts, Penysarn*

7. **Limrig**
   Testun: 'Postmon'
   Gwobr: £30 i'w rannu

   *Y wobr yn rhoddedig gan Gwyn Roberts, Penysarn*

**Cystadlaethau Rhyddiaith**

Beirniad : Yr Athro Gerwyn Wiliams a John Alwyn Griffiths

8. **Y Fedal Ryddiaith** – Agored. Testun – 'Croesffordd'

Cyflwyno tri darn o waith ar rai o'r ffurfiau canlynol:

- Stori Fer
- Ysgrif
- Ymsom
- Monolog
- Portread

(Rhaid cynnwys o'leiaf dwy ffurf wahanol, e.e. dwy stori fer a monolog)

Gwobr: Tlws a £150

9. **Dyddiadur Tridiau**
   Testun: 2020
   Gwobr: £30 i'w rannu.

10. **Stori Fer**
   Testun: 'Caethiwed'
   Gwobr: £30 i'w rannu

11. **Llên Meicro** (tri darn)

Testun: 'Colled'

Gwobr: £30 i'w rannu

*Mae gwobrau'r tair gystadleuaeth uchod yn rhoddedig gan Mrs Myfanwy Bennett Jones, Llanfairpwll*

12. **Erthygl Bapur Newydd**

Ysgrifennu erthygl ar ardal leol ar gyfer papur bro.

*Cyflwynir gwobr gwerth £100 er cof am y newyddiadurwr a'r darlledwr, Vaughan Hughes.*

**Adran Llenyddiaeth Ieuenctid**

**Beirniaid:** Cedron Sion a Nia Gruffydd

13. **Tlws yr Ifanc (o dan 25 oed)** – Hunanddewisiad

Cyflwyno dau ddarn o waith creadigol gan ddefnyddio ffurfiau gwahanol;

- Stori Fer
- Dyddiadur
- Cerdd
- Portread
- Monolog
- Ymsom
- Pennod gyntaf o nofel

Gwobr: Tlws a £75

*Y tlws a'r wobr ariannol yn rhoddedig gan Dafydd ac Alwen Jones, Amlwch*

14. Cyfieithu **o dan 25 oed**: Bydd angen i'r ymgeiswyr gyfieithu darn penodol o ryw 300 o eiriau o'r Saesneg i'r Gymraeg. Gellir cysylltu drwy e-bost – eisteddfodmon2027@gmail.com am fwy o fanylion

*Cynhelir y gystadleuaeth hon mewn cydweithrediad â* ***Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru****.*

**Beirniad:** Gwen Saunders Collins

**Adran Llenyddiaeth Cynradd**

**Beirniad:** Catrin Angharad Jones

**Rhyddiaith**

15. Blwyddyn 1 a 2
Testun: 'Fy Lle Hapus'
Gwobr: £20 i'w rannu

16. Blwyddyn 3 a 4
Testun: 'Y Môr'
Gwobr: £20 i'w rannu

17. Blwyddyn 5 a 6
Testun: 'Ein Milltir Sgwâr'
Gwobr: £20 i'w rannu

*Noddir y cystadlaethau uchod gan Mrs Catherine Jones, Clwch a chan Wobr Goffa Dewi Jones*

**Barddoniaeth**

18. Blwyddyn 3 a 4
Testun: 'Y Parti'
Gwobr: £20 i'w rannu

*Noddir y cystadlaethau uchod gan Mrs Catherine Jones, Clwch a chan Wobr Goffa Dewi Jones*

19. Blwyddyn 5 a 6
Testun: ‘Gwyliau’
Gwobr: £20 i’w rannu

*Noddir y cystadlaethau llenyddiaeth cynradd gan Mrs Catherine Jones, Clwch a chan Wobr Goffa Dewi Jones*

## Adran Llenyddiaeth Uwchradd

**Beirniad:** Caryl Bryn

### Barddoniaeth

20. Blwyddyn 7, 8 a 9 – Hunanddewisiad
Gwobr: £30 i’w rannu

21. Blwyddyn 10 ac 11 – Hunanddewisiad
Gwobr: £30 i’w rannu

22. Blwyddyn 12 a 13 – Hunanddewisiad
Gwobr: £30 i’w rannu

### Rhyddiaith

23. Blwyddyn 7, 8 a 9 – Hunanddewisiad
Gwobr: £30 i’w rannu

24. Blwyddyn 10 ac 11 – Hunanddewisiad
Gwobr: £30 i’w rannu

25. Blwyddyn 12 a 13 – Hunanddewisiad
Gwobr: £30 i’w rannu

**DYSGWYR**

1. **Tlws y Dysgwyr**

Beirniad: Carwyn Jones

Sgwrs hyd at bum munud hefo'r newyddiadurwr Carwyn Jones ar bwnc hunanddewisol. Cynhelir y sgyrsiau yn Neuadd Goffa Amlwch ar nos Fawrth 11 Mai 2027 hefo'r enillydd yn cael ei gyhoeddi ar lwyfan yr Eisteddfod ar ddydd Sadwrn 15 Mai.

Gwobr: Tlws a £150

Rhaid cysylltu i gofrestu – gweler yr Amodau Cyffredinol.

*Y wobr yn rhoddedig gan Adran Cymraeg i Oedolion, Prifysgol Bangor*

2. **Ysgrifennu**
   **Beirniad:** Mared Lewis, Rhian Lloyd Jones

Cyflwyno darn o waith gan ddewis un o'r canlynol –

- Stori Fer
- Adolygiad o Ffilm
- Cerdd

*Gwobr: 1af - £40*

*2il -. £25*

*3ydd - £10*

3. **Cyflwyno sgwrs rhwng dau ffrind am bwnc o'i dewis**.
   Gwobr: £30 i'w rannu.

# CELF, CREFFT, DYLUNIO A CHOGINIO

## *Amodau Celf a Chrefft*

*(Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol)*

1. Gofynnir i bob un sy’n dymuno cystadlu, gyflwyno RHAN A o’r ffurflen gystadlu ar y 5ed Mai, 2027 wrth gyflwyno’r gwaith
2. Derbynnir pob darn o waith yn Neuadd Penysarn rhwng 3.00 a 6.00 o’r gloch ar y 5ed o Fai.
3. Dylid sicrhau fod RHAN B o’r ffurflen gystadlu wedi ei chwblhau hefo’r manylion canlynol a’i gosod ar bob darn o waith sydd yn cael ei gyflwyno:
    Ffugenw
    Teitl y gwaith
    Teitl a rhif y gystadleuaeth
4. Mae hawl gan y Pwyllgor Celf a Chrefft i gynnwys gwaith unrhyw gystadleuydd yn Arddangosfa’r Eisteddfod.
5. Ni dderbynnir gwaith sydd eisioes wedi ennill gwobr na chwaith wedi ei gyflwyno yn Eisteddfod Môn yn y gorffennol.
6. Oni farno’r beirniad fod teilyngdod, atelir y wobr, neu ran o’r wobr.
7. Rhoddir tystysgrif i’r cyntaf, ail a’r trydydd ym mhob cystadleuaeth.
8. Dylid cyflwyno RHAN C o’r ffurflen gystadlu wrth gasglu’r gwaith o Neuadd Penysarn yn dilyn cloi’r Arddangosfa. Ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw waith nas casglwyd oni bai fod trefniadau priodol wedi eu cytuno o flaen llaw.

**Beirniaid**: Diana Williams, Carys Parry, Euryn Morris, Gwenda Pritchard

**Celf**

**MEITHRIN / DERBYN** – Thema: Ein Milltir Sgwâr

1. Arlunio 2D – Unrhyw gyfrwng neu gyfuniad o gyfryngau dim mwy nag A2

Gwobr: £18 i’w rannu

2. Gwaith Creadigol 3D – Unrhyw gyfrwng – gwaelod yn ddim mwy nag A2

Gwobr: £18 i’w rannu

**YSGOLION CYNRADD** – Thema: Byd Natur Ni

3. Blwyddyn 1 a 2 – Arlunio 2D – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy nag A2

   Gwobr: £18 i’w rannu

4. Blwyddyn 3 a 4 – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy nag A2

   Gwobr: £18 i’w rannu

5. Blwyddyn 5 a 6 – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy nag A2

   Gwobr: £18 i’w rannu

6. Gwaith Creadigol 3D – Grŵp neu Unigol

   Gwobr: £18 i’w rannu

7. Blwyddyn 1 a 2 – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau gwaelod dim mwy nag A2

   Gwobr: £18 i’w rannu

8. Blwyddyn 3 a 4 – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau gwaelod dim mwy nag A2

   Gwobr: £18 i’w rannu

9. Blwyddyn 5 a 6 – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau gwaelod dim mwy nag A2

   Gwobr: £18 i’w rannu

**UWCHRADD** – Thema: Byd Natur Ni – Gwaith 2D Unigol

10. Blwyddyn 7, 8 a 9 – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy nag A2

    Gwobr: £20 i’w rannu

11. Blwyddyn 10 a 11 – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy nag A2

    Gwobr: £20 i’w rannu

12. Blwyddyn 12 a 13 – unrhyw gyfrwng / cyfuniad o gyfryngau dim mwy nag A2

    Gwobr: £20 i’w rannu

**DISGYBLION AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**

**CYNRADD** (unigol neu grŵp) – Thema: Fy Lle Hapus

13. Gwaith creadigol 2D – dim mwy nag A2

    Gwobr: Tlws a £18 i’w rannu

14. Gwaith creadigol 3D – gwaelod dim mwy nag A2

    Gwobr: Tlws a £18 i'w rannu

**UWCHRADD** (unigol neu grŵp) – Thema: Fy Lle Hapus

15. Arlunio 2D – unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau – dim mwy nag A2

    Gwobr: Tlws a £20 i'w rannu

16. Gwaith Creadigol 3D Gwaith grŵp neu unigol. Gwaelod dim mwy nag A2.

    Gwobr: Tlws a £20 i'w rannu

*Y Tlws a'r arian yn y pedair cystadleuaeth yn rhoddedig gan Emlyn Parry, Hiraethog, Rhosybol er cof am Dilys.*

**ADRAN AGORED** – Thema: Eicon ('Icon')

17. Darn o gelf. Gallwch ddefnyddio unrhyw gyfrwng e.e. modelu, paentio, olew, gwaith pren a.y.b.

    Gwobr: £100 i'w rannu

**TECHNOLEG GWYBODAETH**

**CYNRADD** – Arlunio cyfrifiadurol Unigol – Creu llun digidol gwreiddiol yn seiliedig ar y thema. Ni chaniateir meddalwedd parod e.e. clipart

18. Blwyddyn 1 a 2
    Thema: 'Dwi'n hapus pan…'
    Ni chaniateir defnyddio meddalwedd parod e.e. ClipArt

    Gwobr: £18 i'w rannu

19. Blwyddyn 3 a 4
Thema : ‘Dwi’n hapus pan …’

Gwobr: £18 i’w rannu

20. Blwyddyn 5 a 6
Thema: Creu pamffled yn hysbysebu Ynys Môn i ymwelwyr. Ni chaniateir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial.

Gwobr: £18 i’w rannu

**UWCHRADD** – Gwaith Unigol

Thema: Creu pamffled yn hysbysebu’r ardal i ymwelwyr. Ni chaniateir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial.

21. Blwyddyn 7, 8 a 9:

Gwobr: £20 i’w rannu

22. Blwyddyn 10 ac 11

Gwobr: £20 i’w rannu

23. Blwyddyn 12 a 13

Gwobr: £20 i’w rannu

**GWAITH TECSTIL**

Gellir cyflwyno gwaith unigol neu grŵp. Collage dim mwy na maint A2 ar y thema: 'Y Môr'

**CYNRADD**

24. Blwyddyn 1 a 2

    Gwobr: £18 i'w rannu

25. Blwyddyn 3 a 4

    Dylid cynnwys elfen o wnïo

    Gwobr: £18 i'w rannu

26. Blwyddyn 5 a 6

    Dylid cynnwys elfen o wnïo.

    Gwobr: £18 i'w rannu

**UWCHRADD**

27. Blwyddyn 7, 8 a 9

    Gwobr: £20 i'w rannu

28. Blwyddyn 10 ac 11

    Gwobr: £20 i'w rannu

29. Blwyddyn 12 ac 13

    Gwobr: £20 i'w rannu

**FFOTOGRAFFIAETH**

Llun (print) du a gwyn neu liw dim mwy na A4 mewn maint ac wedi'i fowntio ar gerdyn. Gellid argraffu'r llun yn siop 'Artisan', Amlwch pe bai angen

**CYNRADD** – Thema: Byd Natur

30. Blwyddyn 1 a 2

    Gwobr: £18 i'w rannu

31. Blwyddyn 3 a 4

    Gwobr: £18 i'w rannu

32. Blwyddyn 5 a 6

    Gwobr: £18 i'w rannu

**UWCHRADD** – Thema: Byd Natur

Llun (print) du a gwyn neu liw: bob llun dim mwy na A4 ac wedi'u mowntio ar gerdyn

33. Blwyddyn 7, 8 a 9

    Gwobr: £20 i'w rannu

34. Blwyddyn 10 ac 11

    Gwobr: £20 i'w rannu

35. Blwyddyn 12 a 13

    Gwobr £20: i’w rannu

**AGORED** – Thema: Dŵr

36. Cyflwyno 4 Llun (print) du a gwyn neu liw : bob llun dim mwy na A4 mewn maint ac wedi’u mowntio ar gerdyn.

    Gwobr: £30 i’w rannu

**COGINIO**

**CYNRADD** – Thema: Cymru

37. Blwyddyn 1 a 2 – Coginio ac Addurno 3 bisged.

    Gwobr: £18 i’w rannu

38. Blwyddyn 3 a 4 – Coginio ac Addurno 4 teisen fach.

    Gwobr: £18 i’w rannu

39. Blwyddyn 5 a 6 – Coginio ac addurno 4 teisen fach.

    Gwobr: £18 i’w rannu

**UWCHRADD** – Thema: Y Môr

40. Blwyddyn 7, 8 a 9 – Coginio ac addurno teisen ‘hambwrdd’ (‘tray bake’)

    Gwobr: £20 i’w rannu

41. Blwyddyn 10 ac 11 – Coginio ac addurno Teisen ‘hambwrdd’ (‘tray bake’)

Gwobr: £20 i’w rannu

42. Blwyddyn 12 a 13 – Coginio ac addurno Teisen ‘hambwrdd (‘tray bake’)

Gwobr: £20 i’w rannu

**AGORED** – Thema – Y Môr

43. Teisen wedi ei choginio a’i haddurno

Gwobr: £25 i’w rannu

44. Teisen/Torth Frith

Gwobr: £25 i’w rannu

**DYLUNIO A THECHNOLEG**

Thema: Affeithiwr Ffasiwn (‘Fashion Accessory’)

Unigol: Gwaith dylunio a gwneud: rhaid cynnwys darn o waith gorffenedig (mewn unrhyw gyfrwng a defnydd addas ) yn ogystal â ffolio neu boster A4 yn cofnodi prif gamau’r broses o ddylunio a gwneud yr eitem.

**UWCHRADD**

45. Blwyddyn 7, 8 a 9

Gwobr: £20 i’w rannu

46. Blwyddyn 10 a 11

Gwobr: £20 i’w rannu

47. Blwyddyn 12 a 13

Gwobr: £20 i’w rannu

**AGORED**

Gwobr: £50 i’w rannu

**GOSOD BLODAU** – Thema: Ailgylchu

**CYNRADD**

48. Blodau mewn esgid

Gwobr: £20 i’w rannu

**UWCHRADD**

49. Gwaith unigol. Blodau mewn bocs neu mewn cwpan a soser

Gwobr: £20 i’w rannu

**AGORED**

50. Gosodiad blodau dim mwy na ½ medr sgwâr

Gwobr: £30 i’w rannu

**LLAWYSGRIFEN**

Copïo pennill gyntaf yr emyn 'Iesu Tirion –

*Iesu Tirion, gwêl yn awr,*

*Blentyn bach yn plygu i lawr;*

*Wrth fy ngwendid trugarha,*

*Paid â'm gwrthod, Iesu da.*

**CYNRADD**

51. Blwyddyn 3 a 4

    Gwobr: £18 i'w rannu

52. Blwyddyn 5 a 6
    Gwobr: £18 i'w rannu

# GŴYL DDRAMA

Eisteddfod Môn

Bro Parys 2027

## Dydd Sadwrn,
## 1 Mai 2027

## Neuadd Goffa, Amlwch

***Amodau'r Ŵyl Ddrama***

*(Gweler hefyd yr Amodau Cyffredinol)*

1. Cynhelir yr Ŵyl Ddrama yn Neuadd Goffa, Amlwch ar ddydd Sadwrn 1 Mai am 6:30pm.
2. Bydd disgwyl i bob cystadleuydd gofrestru i gystadlu erbyn dydd Sadwrn, 17 Ebrill 2027. Gellir cofrestru i gystadlu drwy anfon e-bost i EisteddfodMon2027@gmail.com neu drwy neges destun / WhatsApp ar 07861 379340.
3. Ymhob cystadleuaeth lle bo hunanddewisiad, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd anfon copi electronig i'r e-bost uchod neu gopi caled erbyn 22 Ebrill 2027.
4. Rhaid i bob cyfansoddiad ysgrifenedig gyrraedd ysgrifennydd yr Eisteddfod erbyn 1af Chwefror 2027.

**Cyfansoddi**

Beirniad Tlws y Ddrama am Gyfansoddi: Dewi Wyn Williams

1. Tlws Cyfansoddi Drama – Agored
   Cyfansoddi drama lwyfan hyd at awr o hyd.

   Gwobr: Tlws a £150

*Yn rhoddedig gan Dewi Wyn Williams er cof am ei rieni, Glyn Penysarn a Kitty Williams.*

2. Cyfansoddi Drama – Ieuenctid
   Yn agored i gystadleuwyr 23 oed ac iau

   Gwobr: £50

3. Cyfansoddi Monolog – Oedran Ysgolion Uwchradd
   Cyfansoddi monolog hyd at 5 munud i'w berfformio

   Gwobr: £40

**Perfformio**

Beirniaid: Huw Llŷr Roberts ac Elen Gwyn

4. Monolog Bl 7, 8 a 9

Gwobr: 1af – £20
2il – £15
3ydd – £10

5. Monolog Bl 10-13

Gwobr: 1af – £30
2il – £25
3ydd – £20

6. Perfformiad Theatrig i grŵp Bl 6 ac iau
Hyd at 5 munud i'w berfformio

Gwobr: 1af – £30
2il – £20
3ydd – £10

7. Perfformiad Theatrig i grŵp Bl 7, 8 a 9
Hyd at 5 munud i'w berfformio

Gwobr: 1af – £40
2il – £30
3ydd – £20

8. Perfformiad Theatrig i grŵp Bl 10 – 13
Hyd at 8 munud i'w berfformio

Gwobr: 1af – Tlws er cof am Owen Huw Roberts a £60
2il – £50
3ydd – £40

9. Perfformiad theatrig unigol i rai rhwng 18 a 24 oed

Unrhyw ddwy fonolog o ddrama / ddramâu neu ryddiaith addas. Caniateir 7 munud ar gyfer paratoi a chlirio'r llwyfan. Disgwylir i un o'r monologau fod allan o waith Cymraeg gwreiddiol.

Gwobr: 1af – £50
2il – £30
3ydd – £20

10. Perfformio Drama Fer – Agored
Hyd at awr i berfformio, gosod a chlirio llwyfan.

Gwobr: 1af – Tlws er cof am Audrey Mechell a £150
2il – £100
3ydd – £75

**Y FFURFLENNI CYSTADLU ar gyfer yr HOLL gystadlaethau:**

I’w dychwelyd drwy e-bost at:
Eisteddfodmon2027@gmail.com

NEU drwy’r post at: Alwen Jones, Llifon, 21 Ffordd Tan y Bryn, Amlwch, Ynys Môn, LL68 9BD.

Ymholiadau: 07861379340

**<u>Eisteddfod Môn Bro Parys 2027</u>**

**Ffurflen Cystadlaethau Llwyfan:** Caniateir llungopïo

Teitl a rhif y gystadleuaeth:

1.........................................................................................................

2.........................................................................................................

3. .......................................................................................................

4.........................................................................................................

5.........................................................................................................

Enw'r cystadleuydd/wyr:...............................................................................

Cyfeiriad:..........................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

.............................................................................................................

Rhif ffôn:..........................................................................................................

Cyfeiriad e-bost:.............................................................................................

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau: ......................................................

**Erbyn 24 Ebrill 2027**

Ymholiadau: eisteddfodmon2027@gmail.com

**<u>Eisteddfod Môn Bro Parys 2027</u>**

**Ffurflen Cystadlaethau Cyfansoddi Cerddoriaeth:** Caniateir llungopio

**Rhan A: I'w osod ar y gwaith**

Ffugenw:..........................................................................................................

Teitl y gwaith:..................................................................................................

---

**Rhan B: I'w roi mewn amlen o dan sêl wedi'i farcio hefo ffugenw a theitl y gwaith a rhif y gystadleuaeth**

Ffugenw:..........................................................................................................

Teitl y gwaith: .................................................................................................

Rhif y gystadleuaeth:.......................................................................................

Enw llawn:.......................................................................................................

Cyfeiriad:.........................................................................................................

.......................................................................................................................

.......................................................................................................................

Rhif ffôn: .........................................................................................................

Cyfeiriad e-bost: ..............................................................................................

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau: ..........................................................

**Erbyn 1 Chwefror 2027**

Ymholiadau: eisteddfodmon2027@gmail.com

**<u>Eisteddfod Môn Bro Parys</u>**

**Ffurflen Cystadlaethau Llenyddiaeth:** Caniateir llungopio

**Rhan A: I'w osod ar y gwaith**

Ffugenw: ........................................................................................................

Teitl y gwaith: ..................................................................................................

---

**Rhan B: I'w roi mewn amlen dan sêl wedi'i farcio hefo ffugenw a theitl y gwaith a rhif y gystadleuaeth**

Ffugenw: ........................................................................................................

Teitl y gwaith: ..................................................................................................

Rhif y gystadleuaeth: .......................................................................................

Enw llawn: .....................................................................................................

Cyfeiriad: .......................................................................................................

.......................................................................................................

.......................................................................................................

Rhif ffôn: ........................................................................................................

Cyfeiriad e-bost: .............................................................................................

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau: ..........................................................

**Erbyn 1 Chwefror 2027**

Ymholiadau: eisteddfodmon2027@gmail.com

**Eisteddfod Môn Bro Parys 2027: Gŵyl Ddrama**

Ffurflen Cystadlaethau PERFFORMIO: Caniateir llungopïo

Teitl a rhif y gystadleuaeth:

1.......................................................................................................

2.......................................................................................................

3.......................................................................................................

4.......................................................................................................

5.......................................................................................................

Enw'r cystadleuydd/wyr: ..............................................................................

Cyfeiriad:.........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

Rhif ffôn: ......................................................................................................

Cyfeiriad e-bost: .............................................................................................

HAWLFRAINT (Pwysig): Eich cyfrifoldeb chi ydy sicrhau hawlfraint unrhyw ddarnau monolog, ymgom neu ddrama i'w perfformio.

**Erbyn 17 Ebrill, 2027**

Ymholiadau: eisteddfodmon2027@gmail.com

**<u>Eisteddfod Môn Bro Parys 2027</u>**

Ffurflen Cystadlaethau CYFANSODDI DRAMA: Caniateir llungopïo

**Rhan A: I'w osod ar y gwaith**

Ffugenw: ............................................................................................................

Teitl y gwaith: ....................................................................................................

---

**Rhan B: I'w roi mewn amlen dan sêl wedi'i farcio hefo ffugenw a theitl y gwaith a rhif y gystadleuaeth**

Ffugenw: ............................................................................................................

Teitl y gwaith: ....................................................................................................

Rhif y gystadleuaeth: ..........................................................................................

Enw llawn: ........................................................................................................

Cyfeiriad: ..........................................................................................................

..............................................................................................................

..............................................................................................................

Rhif ffôn: ............................................................................................................

Cyfeiriad e-bost: .................................................................................................

Oed a dyddiad geni os yn 26 oed ac iau: .............................................................

**Erbyn 1 Chwefror 2027**

Ymholiadau: eisteddfodmon2027@gmail.com

**<u>Eisteddfod Môn Bro Parys 2027</u>**

**CELF A CHREFFT**

Rhan A: I'w rhoi mewn amlen wedi ei marcio hefo'r ffugenw a rhif y gystadleuaeth

Ffugenw___________________________________________________________

Teitl a Rhif y gystadleuaeth ___________________________________________

Enw  Llawn _______________________________________________________

Cyfeiriad__________________________________________________________

Teitl y Gwaith _____________________________________________________

Oed a dyddiad geni os o dan 19 _______________________________________

Rhan B: I'w gosod ar y gwaith sydd yn cael ei gyflwyno i'r swyddogion yn Neuadd Penysarn ar y 5ed o Fai rhwng 3.00 a 6.00

Ffugenw:__________________________________________________________

Teitl y gwaith: _____________________________________________________

Teitl a rhif y Gystadleuaeth __________________________________________

Rhan C: I'w chyflwyno i'r swyddogion pan yn casglu eich gwaith

Ffugenw:___________________ Enw Llawn______________________________

Cyfeiriad:_________________________________________________________

Teitl a rhif y gystadleuaeth: __________________________________________

**Ar y 5ed o Fai, 2027**

Ymholiadau: eisteddfodmon2027@gmail.com